

# Dathlu'n ddiogel

## Tân gwyllt

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn eich argymhell i fynychu arddangosfa a drefnwyd ar gyfer y cyhoedd.


### Pethau i'w hosgoi:

- Peidiwch â mynd yn ôl at dân gwyllt ar ôl ei gynnau – hyd yn oed os nad yw wedi gweithio, gallai ffrwydro
- Peidiwch â thafu tân gwyllt na'u rhoi yn eich poced
- Peidiwch ag yfed alcohol os ydych chi'n yn cynnau tân gwyllt
- Peidiwch â defnyddio paraffin na phetrol ar goelcerth

### Pethau i'w cofio:

- Cadwch fwcadaid o ddŵr gerllaw
- Cadwch dân gwyllt mewn blwch caeedig gan eu tynnu allan un ar y tro

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar bob tân gwyllt  
Defnyddiwch dortsh i'w darllen nid fflam noeth
- Daliwch dân gwyllt hyd fraich i'w cynnau, gan ddefnyddio tapr
- Gwnewch yn siŵr bod pawb yn cadw draw yn ddigon pell
- Dylech bob amser oruchwylio plant pan fydd tân gwyllt o gwmpas y lle a pheidiwch byth â rhoi ffyn gwreichion i blant o dan bump oed
- Cynewch ffyn gwreichion un ar y tro gan wisgo menig
- Cadwch anifeiliaid anwes dan do
- Gwnewch yn siŵr bod pob tân gwyllt yn cydymffurfio â safonau a rheoliadau cymeradwy.



**Peidiwch byth â dychwelyd at dân gwyllt wedi i chi eu cynnau**